**LC1301**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoleiddio'r weithdrefn sydd i'w dilyn ar gyfer ceisiadau ac apelau a wneir i dribiwnlys eiddo preswyl o dan Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") neu o dan Ran 9 o Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985").

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.17.

Mae Rheoliad 36(2) yn cyfeirio at berson sy'n "analluog i ddarllen neu siarad neu ddeall yr iaith Saesneg". Mae hyn yn dilyn geiriad y rheoliad cyfatebol yn Lloegr a wnaed ar 17 Mawrth 2006, ac mae'n ymddangos bod y rheoliadau'n rhagdybio mai Saesneg fydd iaith unrhyw achos. Dylai'r cymorth fod ar gael i'r sawl sy'n analluog i ddarllen, siarad neu ddeall Saesneg neu Gymraeg, beth bynnag yw iaith y gwrandawiad neu'r ddogfen. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn groes i adran 47(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gynnal ei fusnes (sef gwneud deddfwriaeth yn yr achos hwn) gan drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 26 yr Atodlen yn cyfateb yn union â pharagraff 22. Mae'n bosibl mai'r bwriad oedd cyfleu'r un gwahaniaeth rhwng y darpariaethau hyn, a'r gwahaniaeth rhwng paragraffau 21 a 25; maent

yn ymwneud â Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf yn eu trefn. Mae angen egluro unrhyw wahaniaeth o'r fath, neu mae angen dileu'r paragraff sy'n dyblygu. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gallai'r mân wallau drafftio hyn gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau ynghylch ychydig o bwyntiau fformadu a gwallau sillafu sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Mehefin 2006